WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Mr Mark James CBE
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Caerfyrddin
Neuadd y Sir
Caerfyrddin
SA31 1JP

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 28 Medi 2012 |
| **Ein cyfeirnod** | 475A2012 |
| **Tudalennau** | **1** o **10** |

Annwyl Mark

# Asesiad Gwella

Mae'n ofynnol i mi, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), gyflwyno adroddiad ar fy ngwaith archwilio ac asesu ynghylch a yw Cyngor Sir Caerfyrddin (y Cyngor) wedi cyflawni ei ddyletswyddau ac wedi bodloni gofynion y Mesur.

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi:

- fy marn ynghylch a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â chynllunio gwelliant;
- fy marn ar gydymffurfiaeth y Cyngor â'r gofynion i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus, yn seiliedig ar waith a wnaed hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, gan gynnwys:
  - cynnydd y Cyngor mewn perthynas â meysydd i'w gwella ac argymhellion a nodwyd yn fy asesiadau blaenorol;
  - unrhyw faterion perthnasol a all fod wedi dod i'r amlwg ers fy adroddiad diwethaf, gan gynnwys sylwadau ar sut mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â heriau ariannol; a
  - chrynodeb byr o unrhyw adroddiadau gan reoleiddwyr perthnasol a gyhoeddwyd ers fy adroddiad diwethaf;
- fy nghynigion pellach ar gyfer gwella a/neu argymhellion; a
- diweddariadau i gynllun gwaith ac amserlen Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer cyflawni fy ngwaith ar yr Asesiad Gwella.

Byddaf yn diweddaru fy safbwyntiau yn ystod y flwyddyn ac yn anfon llythyr arall erbyn diwedd mis Tachwedd 2012.

## Rydw i wedi gohirio dod at gasgliad a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau i gynllunio gwelliant o dan y Mesur nes i'r Cyngor gyhoeddi ei Gynllun Gwella a'r Adroddiad Blynyddol ar y cyd yn hwyrach eleni

Mae'r Cyngor wedi penderfynu gohirio cyhoeddi'r Cynllun Gwella ar gyfer eleni tan fis Hydref 2012 a'i gyfuno â'r Adroddiad Blynyddol, a hynny er mwyn rhoi digon o amser i'r weinyddiaeth newydd adolygu a, lle y bo angen, addasu Amcanion Gwella cyfredol y Cyngor er mwyn cyflawni eu huchelgeisiau yn well. Mae gan y Cyngor ddrafft datblygedig ar waith ac amserlen ar gyfer cyflwyno'r drafft hwn i bwyllgorau craffu a Bwrdd Gweithredol y Cyngor cyn iddo gael ei roi gerbron y Cyngor llawn ar 12 Hydref. Byddaf yn cyflwyno canlyniadau fy archwiliad o'r Cynllun Gwella a'r Adroddiad Blynyddol ar y cyd erbyn diwedd mis Tachwedd 2012.

## Yn seiliedig ar waith a wnaed hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol ac yn gyfyngedig iddo:

## Credaf fod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol hon

Deuthum i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

### Mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd cyson o ran mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd mewn asesiadau blaenorol

Rwyf wedi nodi o'r blaen nifer o gynigion ar gyfer gwella a hefyd wedi nodi rhai meysydd lle y byddem yn gwneud rhagor o waith. Rhoddir crynodeb o'r cynnydd ar y materion hyn isod a cheir rhagor o fanylion yn Atodiad 1:

- mae'r Cyngor wed lleihau nifer ei bwyllgorau craffu o saith i bump. Caiff effeithiolrwydd y trefniadau newydd hyn eu hasesu fel rhan o Astudiaeth yr Asesiad Gwella a fydd yn edrych ar y pwnc hwn yn ddiweddarach yn ystod yn flwyddyn;
- mae'r Cyngor wedi adolygu ei brosesau pennu cyllidebau a chynllunio ariannol er mwyn cwmpasu'r Cyngor cyfan; ond
- mae gan y Cyngor ragor o waith i'w wneud i wella ei drefniadau rheoli grantiau.

Caiff rhagor o wybodaeth am ein canfyddiadau yn rhai o'r meysydd hyn ei rhoi ar wahân mewn diweddariadau interim lle y bo'n briodol.

## Mae gan y Cyngor gynlluniau ariannol clir a chadarn ond gellid atgyfnerthu'r cysylltiadau ag amcanion strategol ac amcanion gwella.

Er bod cynlluniau ariannol y Cyngor yn glir nid ydynt wedi'u cysylltu'n dda ag amcanion strategol nac amcanion gwella. Mae hyn yn ei gwneud yn anos asesu sut y sicrheir yr arbedion a'r effeithlonrwydd rhagamcanol tra bod y Cyngor yn ysgogi gwelliant yn y meysydd sy'n flaenoriaeth iddo. Mae hefyd botensial ar gyfer cyllidebu ar sail sero yn gyfnodol er mwyn sicrhau gwelliannau ac arbedion pellach.

Mae gan y Cyngor hanes o weithgarwch ymgysylltu da ac mae wedi ymgysylltu'n helaeth o ran y gyllideb a'r blaenoriaethau. Mae'r Aelodau, y cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol oll wedi cael cyfle i gyfrannu a gwneud sylwadau.

Mae cynllun ariannol y Cyngor yn seiliedig ar wybodaeth gadarn a phriodol er y gallai ddefnyddio ystod ehangach o wybodaeth a sicrhau ei bod ar gael yn ehangach i'r rhai sy'n herio'r cynlluniau ac yn craffu arnynt. Mae cynllun cyffredinol y Cyngor yn cael ei gyflawni, gan sicrhau gwelliannau amlwg mewn meysydd gwasanaeth â blaenoriaeth, ac o fewn y gyllideb ar y cyfan. Mae'r Cyngor yn monitro elfennau o'i gynlluniau yn rheolaidd, ond nid yw'n monitro arbedion effeithlonrwydd yn benodol ac mae cysylltiadau gwan rhwng cynlluniau yn lleihau effeithiolrwydd prosesau monitro.

## Mae dull y Cyngor o adolygu polisïau a'r canllawiau cysylltiedig a ddarperir ganddo yn gynhwysfawr, ac mae wedi'i ddefnyddio'n effeithiol yn ystod adolygiad o fynediad at dai cymdeithasol

Mae gan y Cyngor broses glir wedi'i dogfennu'n dda ar waith i helpu i gynllunio, cefnogi a chyflawni adolygiadau o bolisïau. Fe'i hategir gan drefniadau clir ar gyfer gwerthuso gweithgarwch adolygu.

Roedd adolygiad y Polisi Mynediad Cyffredin at Dai Cymdeithasol (CASHP) yn cynnwys asesiadau tryloyw o faterion gwleidyddol a chyfreithiol a materion yn ymwneud â gwella a gallu'r gwasanaeth, ond mae lle i gryfhau ei ddadansoddiad o'r opsiynau ariannol.

Roedd y broses adolygu a ddefnyddiwyd gan y Cyngor yn cynnwys prosesau gwneud penderfyniadau, craffu a herio a oedd yn briodol i'r dasg ac mae'n annog ymgysylltu effeithiol â phartneriaid a rhanddeiliaid presennol a darpar bartneriaid a rhanddeiliaid.

### Mae gwasanaethau addysg y Cyngor ar gyfer plant a phobl ifanc yn dda a cheir rhagolygon da ar gyfer eu gwella

Cyhoeddodd Estyn ei adroddiad yn dilyn arolygiad o wasanaethau addysg y Cyngor ar gyfer plant a phobl ifanc ym mis Mawrth 2012 ac mae'r adroddiad hwn ar gael ar ei wefan yn www.estyn.gov.uk.

Canfu arolygiad Estyn fod gwasanaethau addysg y Cyngor ar gyfer plant a phobl ifanc yn dda gyda rhagolygon da ar gyfer gwella. Crynhoir canfyddiadau a chasgliadau'r arolygiad yn Atodiad 2.

### Mae gan y Cyngor drefniadau rheoli perfformiad cadarn ond nododd fy archwiliad o sampl fechan o Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol rai problemau

Mae gan y Cyngor drefniadau cadarn ar waith i gyflwyno adroddiadau ar wybodaeth am berfformiad a'i thrafod. Defnyddir System Rheoli Gwybodaeth am Berfformiad (PIMS) fewnol y Cyngor yn effeithiol a bwriedir iddi gyflawni ystod o allbynnau a anelir at wahanol ddefnyddwyr gan gynnwys Aelodau.

Yn sgil fy archwiliad o sampl o dri Dangosydd Strategol Cenedlaethol cywirwyd un dangosydd ac amodwyd un arall. O ganlyniad i hyn byddaf yn edrych unwaith eto ar ddangosyddion perfformiad ychwanegol yn ddiweddarach yn y flwyddyn a byddaf yn cyflwyno fy nghanfyddiadau yn fy Llythyr Asesiad Gwella ym mis Tachwedd.

## Cynigion pellach ar gyfer gwella

Nid yw'r llythyr hwn yn awgrymu unrhyw gynigion newydd ar gyfer gwella. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor o ran gweithredu'r cynigion a nodwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol ac yn cyflwyno adroddiadau arno.

## Diweddariadau i'r cynllun gwaith a'r amserlen

Bydd Tîm yr Asesiad Gwella yn sicrhau bod y Cyngor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau manwl ar gyfer cyflwyno fy ngwaith asesu.

Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen a gaiff eu diweddaru'n rheolaidd yn rhoi rhagor o fanylion am y gwaith sy'n cael ei gyflawni yn ystod asesiad eleni ac yn benodol sut y byddwn yn ychwanegu gwerth drwy ganolbwyntio ar feysydd neu wasanaethau a nodwyd ar y cyd.

Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen yn ystyried fy ymgynghoriad â'r awdurdodau gwella ar fy nghynigion ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2012-13. Yn benodol, byddaf yn gofyn i Dîm yr Asesiad Gwella ystyried yn ystod y flwyddyn faint y gallwn ddibynnu ar y

prosesau hunanasesu (gan gynnwys eich adolygiad o lywodraethu wrth gynhyrchu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'ch Adroddiad Perfformiad Blynyddol).
Byddaf yn gwneud sylwadau ar y gwaith hwn yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol.

Rwyf yn ddiolchgar i'r Cyngor am y ffordd y mae wedi helpu i hwyluso ein gwaith a gobeithiaf weld trefniadau hyd yn oed fwy effeithiol ac effeithlon yn datblygu dros amser. Rwyf yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu lefelau priodol o sicrwydd cyhoeddus gan eich helpu ar yr un pryd i liniaru'r risgiau anochel i wasanaethau ac atebolrwydd sy'n deillio o leihad mewn adnoddau a newidiadau o ganlyniad i hynny.

Yn gywir



**HUW VAUGHAN THOMAS**

**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

CC: Carl Sargeant, Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau

Colin Davies – Rheolwr

Jeremy Evans – Swyddog Arweiniol Archwilio Perfformiad

# Atodiad 1

| Cynigion ar gyfer gwella | | Cynnydd |
|---|---|---|
| C1 | Dylai'r Cyngor ystyried lleihau nifer ei bwyllgorau craffu er mwyn gwella'u heffeithiolrwydd ymhellach. | Mae'r Cyngor wedi adolygu ei drefniadau craffu a lleihau nifer y Pwyllgorau Craffu i bump (o saith). Mae'r rhain yn cwmpasu Polisi ac Adnoddau, Cymuned, Addysg a Phlant, yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd a Gofal Cymdeithasol ac Iechyd.<br>Byddaf yn asesu effeithiolrwydd y trefniadau hyn fel rhan o'r Astudiaeth wella a fydd yn edrych ar drefniadau craffu y bwriedir ei chynnal yn ystod ail hanner 2012. |
| C2 | Mae angen i'r Cyngor cyfan sicrhau ei fod yn cydweithio i gytuno ar gynllun ariannol tymor canolig realistig. | Mae'r Cyngor yn cydweithio i bennu'r cyfeiriad strategol ac ariannol ar gyfer y sefydliad. Arweinir y gwaith hwn gan y Tîm Rheoli Corfforaethol, y Bwrdd Gweithredol, y Cyfarwyddwr Adnoddau a'r prif arweinydd cyllid. Ceir cymorth hefyd gan y gwahanol Bwyllgorau Craffu.<br>Cyflwynir adroddiad manwl ar y gyllideb i'r aelodau er mwyn iddynt ei chymeradwyo. Mae'r adroddiad hwn yn fanwl ac yn gynhwysfawr, ac mae'n nodi meysydd allweddol i'w hystyried megis perfformiad y flwyddyn gyfredol, y gwaith ymgynghori a wnaed, y tybiaethau dilysu ar gyfer y tair blynedd nesaf, y rhaglen effeithlonrwydd a phwysau newydd ar wariant. Mae hefyd yn nodi'r trefniadau ariannu disgwyliedig ar gyfer y tair blynedd nesaf a hefyd y goblygiadau i gronfeydd wrth gefn. Mae'n cynnwys y cynllun ariannol tymor canolig a'r dreth gyngor a gynigir ar gyfer 2011-12 a hefyd grynodeb o'r cynllun ariannol tymor canolig ar gyfer 2011-12, 2012-13 a 2013-14.<br>Mae'r broses o bennu'r gyllideb hefyd yn cynnwys mewnbwn gan bobl sy'n darparu'r gwasanaeth ac nid dim ond staff ariannol am fod cynigion ar gyfer arbedion effeithlonrwydd, er enghraifft, hefyd yn dod o reolwyr gwasanaethau. Felly, mae'r broses o lunio'r cynllun ariannol tymor canolig, pennu arbedion effeithlonrwydd ac ati, yn broses ddwyffordd lle mae'r tîm canolog yn pennu targedau dangosol ac yn eu bwydo i lawr ac mae staff adrannol a rheolwyr gwasanaethau yn rhoi adborth arnynt ac yn cyflwyno cynigion a syniadau am arbedion.<br>Mae'n ofynnol cynnal ymgynghoriad statudol â threthdalwyr ynghylch y cynllun ariannol tymor canolig/cyllideb, ond ar gyfer Cynllun Arbedion Effeithlonrwydd 2011-12 a'r cynllun ariannol tymor canolig, ymgynghorwyd â'r cyhoedd hefyd. |

| Cynigion ar gyfer gwella | | Cynnydd |
|---|---|---|
| C3 | Dylai'r Cyngor ddatblygu ymhellach ddull o gyflawni gwelliannau sy'n fwy seiliedig ar ganlyniadau er mwyn dangos y gwahaniaeth y mae ei brosiectau, ei gynlluniau a'i gamau gweithredu yn ei gael ar fywydau pobl yn Sir Gaerfyrddin. | Byddaf yn cyflwyno adroddiad ar y cynnydd a wnaed o ran y cynnig hwn yn fy ail Lythyr Asesiad Gwella ym mis Tachwedd 2012. |
| C4 | Dylai'r Cyngor atgyfnerthu trefniadau rheoli grantiau er mwyn sicrhau eu bod yn cefnogi'r gwaith o gyflawni prosiectau yn gadarnach ac yn lliniaru'r risg o adfachu arian. | Mae ansawdd a chywirdeb hawliadau a ffurflenni grant yn 2010-11 fwy neu lai yr un peth â'r llynedd ac mae lle o hyd i wella trefniadau grant ymhellach:<br>• mae angen cymryd camau i wella cydymffurfiaeth â threfniadau grant;<br>• ceir gwendidau o fewn y system rheoli grantiau y mae angen eu cryfhau drwy wneud gwell defnydd o'r gronfa ddata grantiau a rhaglen monitro a chraffu gan swyddogion; a<br>• gellir gwella'r trefniadau rheolaeth fewnol, a fydd yn gwella canlyniadau gwaith archwilio ac yn helpu i leihau ffioedd archwilio.<br>Gwnaed chwe argymhelliad a byddaf yn cyflawni ystod o waith gyda'r Cyngor yn ystod y chwe mis nesaf ac yn pwyso a mesur unwaith eto ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. |
| C5 | Dylai'r Cyngor adolygu ei drefniadau cynllunio ar gyfer gwella i sicrhau y cytunir ar gynllun clir, cyson ac y caiff ei gyfleu i gynghorwyr, staff a'r cyhoedd. | Byddaf yn cyflwyno adroddiad ar y cynnydd a wnaed o ran y cynnig hwn yn fy ail Lythyr Asesiad Gwella ym mis Tachwedd 2012. |
| C6 | Cyflwyno cynlluniau i wneud defnydd ehangach o ddata adnoddau dynol 'Insight' fel bod rheolwyr atebol yn gallu cael gafael ar y wybodaeth sydd ei hangen i nodi materion o ran y gweithlu a mynd i'r afael â'r materion hynny. | Byddaf yn cyflwyno adroddiad ar y cynnydd a wnaed o ran y cynnig hwn yn fy ail Lythyr Asesiad Gwella ym mis Tachwedd 2012. |

| Cynigion ar gyfer gwella | | Cynnydd |
|---|---|---|
| C7 | Atgyfnerthu trefniadau cynllunio busnes a rheoli ariannol drwy sicrhau bod y cysylltiadau rhwng amcanion strategol ac amcanion gwella a'r cynllun ariannol tymor canolig yn glir, a sicrhau bod y gyllideb yn adlewyrchu lefelau gweithgarwch cyfredol drwy gynnal adolygiadau pellach a mwy sylfaenol o gyllidebau. | Er bod cynlluniau ariannol y Cyngor yn glir nid ydynt wedi'u cysylltu'n dda â'r amcanion strategol na'r amcanion gwella sy'n golygu ei bod yn anodd asesu sut y sicrheir yr arbedion a'r effeithlonrwydd rhagamcanol tra bod y Cyngor yn ysgogi gwelliant yn y meysydd sy'n flaenoriaeth iddo. |
| C8 | Datblygu cyfres o ddangosyddion perfformiad i fesur Gwerth am Arian a hybu meincnodi mewnol rhwng meysydd gwasanaeth allweddol er mwyn darparu gwybodaeth briodol at ddibenion craffu a herio a helpu i nodi cwmpas ar gyfer arbedion effeithlonrwydd pellach. | Mae'r Cyngor yn bwriadu gwneud mwy o ymchwil i'r maes hwn ac ymgysylltu â swyddogion o Gynghorau eraill drwy Rwydwaith Gwella Cymru. At hynny, hysbyswyd y Cyngor bod yr Uned Ddata Llywodraeth Leol (LGDU) yn edrych ar y posibilrwydd o ddatblygu Dangosyddion Gwerth am Arian. Tra'n aros i'r gwaith ymchwil hwn gael ei gwblhau mae'r Prif Weithredwr wedi herio adrannau i fynd i'r afael â mater Gwerth am Arian. |
| C9 | Dylai'r Cyngor sicrhau bod ei adolygiad o'r cyfansoddiad yn hyrwyddo egwyddorion llywodraethu da. | Byddaf yn cyflwyno adroddiad ar hyn fel rhan o'm Hastudiaethau Gwella y bwriedir eu cynnal yn ystod ail hanner 2012. |
| C10 | Dylai'r Cyngor atgyfnerthu ei ddull o werthuso ei berffomriad a chyflwyno adroddiadau arno. | Byddaf yn cyflwyno adroddiad ar y cynnydd a wnaed o ran y cynnig hwn yn fy ail Lythyr Asesiad Gwella ym mis Tachwedd 2012. |
| C11 | Cynigion ar gyfer Gwella sy'n deillio o'r Adolygiad â Thema o Dechnoleg. | Byddaf yn cyflwyno adroddiad ar y cynnydd a wnaed o ran y cynnig hwn yn fy ail Lythyr Asesiad Gwella ym mis Tachwedd 2012. |
| C12 | Cynigion ar gyfer Gwella sy'n deillio o'r Adolygiad â Thema o Brosesau Rheoli Gwybodaeth. | Byddaf yn cyflwyno adroddiad ar y cynnydd a wnaed o ran y cynnig hwn yn fy ail Lythyr Asesiad Gwella ym mis Tachwedd 2012. |

## Atodiad 2

Canfu arolygiad Estyn fod gwasanaethau addysg y Cyngor ar gyfer plant a phobl ifanc yn dda gyda rhagolygon da ar gyfer gwella.  Ceir isod grynodeb o'r adroddiad llawn ar yr arolygiad a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2012 sydd ar gael ar wefan Estyn yn www.estyn.gov.uk.

### Mae perfformiad presennol yn dda oherwydd:

- mae perfformiad ym mhob cyfnod allweddol wedi gwella yn y blynyddoedd diwethaf;
- mae canran y dysgwyr sy'n gadael yr ysgol heb gymhwyster a nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET) ymhlith yr isaf yng Nghymru;
- ers tair blynedd mae'r cyngor wedi bodloni'r rhan fwyaf o feincnodau cyfnod allweddol 4 Llywodraeth Cymru ar gyfer perfformiad ar sail yr hawl i brydau ysgol am ddim;
- mae'r cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiant cymdeithasol yn dda;
- mae'r cyngor wedi gwneud cynnydd da wrth gyflwyno'i raglen Moderneiddio Addysg; ac
- mae uwch arweinwyr yn deall effaith adfywio ehangach a gofal cymdeithasol ar ddeilliannau addysgol yn glir.

Fodd bynnag:

- mae cyfran yr ysgolion y mae angen gweithgarwch dilynol arnynt yn dilyn arolygiad yn uchel o gymharu a chynghorau eraill;
- o gymharu ag ysgolion tebyg yn ôl y meincnodau prydau ysgol am ddim, mae presenoldeb islaw'r cyfartaledd mewn ysgolion cynradd ac ymhell islaw'r cyfartaledd mewn ysgolion uwchradd; ac
- nid yw rhywfaint o ddarpariaeth cyfnod allweddol 4 y cyngor y tu allan i ysgolion wedi cael ei gofrestru'n briodol gyda Llywodraeth Cymru fel Uned Cyfeirio Disgyblion.

### Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- mae cynlluniau allweddol yn alinio'n dda ar bob lefel ac mae uwch arweinwyr yn gweithio mewn modd soffistigedig gydag ystod o bartneriaid strategol ar draws gwasanaethau cyhoeddus i bennu blaenoriaethau lefel uchel gyda'i gilydd;
- mae gan y cyngor a'i bartneriaid ymrwymiad clir i ddysgwyr ac i ddatblygu diwylliant dysgu yn y sir;
- mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu'r rhwydweithiau 14 i 19 oed ar y cyd yn arwain y sector;

- mae gan y cyngor hanes o nodi ac ymyrryd pan fo rhwystrau rhag gweithio effeithiol yn rhwystro cynnydd;
- mae uwch arweinwyr wedi gwneud penderfyniadau anodd ac maent yn ymateb iddynt yn rhagweithiol;
- mae'r awdurdod yn dadansoddi data a thystiolaeth uniongyrchol yn dda i wneud arfarniadau cywir o ansawdd ac effaith gwasanaethau;
- mae'r awdurdod wedi mynd i'r afael yn dda â'r holl argymhellion o arolygiadau blaenorol Estyn o wasanaethau addysg a chymorth ieuenctid;
- mae gan y cyngor hanes da o reoli ei gyllideb addysg yn effeithiol a gwella effeithlonrwydd; ac
- mae craffu wedi archwilio ar agweddau anodd ar waith y cyngor yn llwyddiannus, ac mae wedi llywio penderfyniadau gan y weithrediaeth yn dda.

Fodd bynnag:

- nid yw'r Cyngor wedi dadansoddi'r manteision sy'n deillio o'i fuddsoddiad mewn gwella cyflwr, addasrwydd ac effeithlonrwydd ei ysgolion yn ddigon systematig.

## Er mwyn parhau i wella, mae angen i Gyngor Sir Caerfyrddin:

A1 Sicrhau bod cyfran yr ysgolion y mae angen gweithgarwch dilynol arnynt o ganlyniad i arolygu yn gostwng.

A2 Gwella presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd.

A3 Gweithio'n fwy effeithiol gyda SNAP Cymru i helpu rhieni i ddeall a chael at wasanaethau a allai helpu eu plant.

A4 Sicrhau bod unrhyw ddarpariaeth ar gyfer disgyblion nad ydynt yn mynd i'r ysgol wedi cael ei chofrestru'n briodol fel Uned Cyfeirio Disgyblion.